Cynnydd disgwyliedig yn erbyn Safonau SAC ar gyfer y rhaglen BA			
		Cyrhaedd iad Disgwyliedig **Ar y Trywydd Iawn / Rhagori ar Ddisgwyliadau**	**Rhesymau dros ddechrau'r broses wrth gefn** (Mae angen ystyried amgylchiadau personol pob darpar athro)
	Diwedd lleoliad BA1	Hanner 5/10 o'r **Llinynnau Canolog** i fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Hanner (5/10) o'r Llinynnau Canolog 'ddim eto ar y trywydd iawn' neu'n 'achos pryder'.
		*Gall safonau a llinynnau eraill hefyd fod "ar y trywydd iawn" o leiaf. Nid dim ond profiad y dylai myfyrwyr ei gael o'r **Llinynnau Canolog**	Caiff safonau eraill eu hasesu fel "achos pryder".
	Canol PAP2	10 **Llinyn Canolog** "ar y trywydd iawn" o leiaf	Os nad felly y mae, rhaid i'r darpar athro gael ei roi ar Gam 1 y broses Ymyrraeth a nodir targedau priodol.
	Diwedd lleoliad BA2	10 **Llinyn Canolog** "ar y trywydd iawn" o leiaf	Os nad felly y mae, caiff y darpar athro gellir ei roi ar Gam 1 y Broses Ymyrraeth a nodir targedau priodol ar gyfer PAP2.
PAP **Amser**		Rhan fwyaf (2/3) o'r Safonau **Addysgeg** 'ar y trywydd iawn' o leiaf	
		Mae'r holl linynnau **cydweithredu** 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Mae'r Broses Ymyrraeth i'w hystyried yn y drydedd ysgol leoliad yn ystod diwrnodau paratoi PAP3. Bydd Uwch Fentoriaid PAP2 a PAP3 yn cwrdd i drafod cymorth ar gyfer y darpar athro.
	Canol lleoliad BA3	Pob safon **Addysgeg, Cydweithredu a Dysgu Proffesiynol** i fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Os nad felly y mae, rhaid i'r darpar athro gael ei roi ar Gam 1 y Broses Ymyrraeth a nodir targedau priodol.
	Diwedd lleoliad BA3	Rhaid i **bob un o'r safonau SAC** fod 'Arddangoswyd safon SAC" o leiaf.	Yn dibynnu ar broffil y darpar athro, dylid cymryd y camau canlynol: Os oes un safon ddim 'Arddangoswyd safon SAC', bydd y darpar athro'n cwblhau tair wythnos ychwanegol yn yr ysgol yn ystod tymor yr haf. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Personol a'r Mentor Dosbarth lle nodir targedau ar gyfer gweddill y lleoliad (cynllun Cymorth Ymyrraeth Cam 1). Caiff y rhain eu hadolygu'n wythnosol drwy gydol y cyfnod o dair wythnos ychwanegol. Petai hyn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol, cyflwynir gradd

			'Llwyddo' i'r Bwrdd Arholi ym mis Awst i ganiatáu i'r darpar athro gymhwyso ar gyfer y mis Medi canlynol. Pwynt pwysig i'w nodi yw y gallai hyn olygu nad yw'r darpar athro'n graddio gyda'i gymheiriaid yn ystod tymor yr haf ac y bydd yn hytrach yn cael gwahoddiad i fynychu'r seremoni raddio'r flwyddyn academaidd ganlynol. Os oes dwy safon neu fwy ddim 'Arddangoswyd safon SAC', bydd gofyn i'r darpar athro ailsefyll y lleoliad PAP llawn yn y flwyddyn academaidd ddilynol. Cyflwynir gradd 'Methu' am y PAP i'r Bwrdd Arholi yn ystod tymor yr haf. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Personol a'r Mentor Dosbarth i nodi targedau ar gyfer y cyfnod lleoliad. Fel arfer, bydd disgwyliadau PAP yn cael eu dilyn.

Cynnydd disgwyliedig yn erbyn Safonau SAC ar gyfer y rhaglen TAR			
		Cyrhaeddiad Disgwyliedig **Ar y Trywydd Iawn / Rhagori ar Ddisgwyliadau**	**Rhesymau dros ddechrau'r broses wrth gefn** (Mae angen ystyried amgylchiadau personol pob darpar athro)
PAP **Amser**	Canol PAP1	Mwyafrif 6/10 o'r **Llinynnau Canolog i** fod "ar y trywydd iawn" o leiaf	Os nad felly y mae, disgwylir i'r Mentor Dosbarth / Pwnc weithio'n agos gyda'r darpar athro i wneud cynnydd am weddill y PAP yn erbyn unrhyw rai o'r Llinynnau Canolog 'Nad ydynt eto ar y Trywydd Iawn'.
		*Gall safonau a llinynnau eraill hefyd fod "ar y trywydd iawn" o leiaf. Nid dim ond profiad y dylai myfyrwyr ei gael o'r **Llinynnau Canolog**	Caiff safonau eraill eu hasesu fel "achos pryder".
	Diwedd PAP1	10 **Llinyn Canolog** "ar y trywydd iawn" o leiaf	Os nad felly y mae, caiff y darpar athro gellir ei roi ar Gam 1 y broses Ymyrraeth a nodir targedau priodol ar gyfer PAP2. Mae'r Ymyrraeth i'w hystyried yn yr ail ysgol leoliad yn ystod diwrnodau paratoi PAP2. Bydd Uwch Fentoriaid PAP1 a PAP2 yn cwrdd i drafod cymorth ar gyfer y darpar athro cyn PAP2.
		Rhan fwyaf (2/3) o'r Safonau **Addysgeg** 'ar y trywydd iawn' o leiaf	
		Pob un o'r llinynnau **cydweithredu** "ar y trywydd iawn" o leiaf	
	Canol PAP2	Pob safon **Addysgeg, Cydweithredu a Dysgu Proffesiynol** i fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Os nad felly y mae, rhaid i'r darpar athro gael ei roi ar Gam 1 y broses Ymyrraeth a nodir targedau priodol.
	Diwedd PAP2	**Rhaid i bob un o'r safonau SAC** fod 'Arddangoswyd safon SAC' o leiaf.	Yn dibynnu ar broffil y darpar athro, dylid cymryd y camau canlynol: - Os oes un safon ddim 'Arddangoswyd safon SAC' bydd y darpar athro'n cwblhau tair wythnos ychwanegol yn yr ysgol. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n

			cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Personol a'r Mentor Dosbarth lle nodir targedau ar gyfer gweddill y lleoliad (cynllun cymorth Ymyrraeth Cam 1). Caiff y rhain eu hadolygu'n wythnosol drwy gydol y cyfnod o dair wythnos ychwanegol. Petai hyn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol, cyflwynir gradd 'Llwyddo' i'r Bwrdd Arholi ym mis Awst i ganiatáu i'r darpar athro gymhwyso ar gyfer y mis Medi canlynol. Pwynt pwysig i'w nodi yw y gallai hyn olygu nad yw'r darpar athro'n graddio gyda'i gymheiriaid yn ystod tymor yr haf ac y bydd yn hytrach yn cael gwahoddiad i fynychu'r seremoni raddio'r flwyddyn academaidd ganlynol. Os oes dwy safon neu fwy ddim 'Arddangoswyd safon SAC', bydd gofyn i'r darpar athro ailsefyll y lleoliad PAP llawn yn y flwyddyn academaidd ddilynol. Cyflwynir gradd 'Methu' am y PAP i'r Bwrdd Arholi yn ystod tymor yr haf. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Personol a'r Mentor Dosbarth i nodi targedau ar gyfer y cyfnod lleoliad. Fel arfer, bydd disgwyliadau PAP yn cael eu dilyn.